

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau

Proses ar gyfer cofrestru plaid wleidyddol

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pobl sy'n bwriadu cofrestru plaid wleidyddol neu sydd am newid manylion plaid wleidyddol gofrestredig ac sydd am wybod mwy am y broses o wneud cais a chofrestru

Cynnwys:

Cyflwyniad i'r Comisiwn

Y camau ar gyfer cyflwyno cais

Cwblhau ac anfon cais

Dewis enw, disgrifiadau ac arwyddluniau

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â ni:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Ein dull gorfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio arian a gwariant gwleidyddol. Rydym yn ymrwymedig i roi dealltwriaeth glir i'r rheini a reoleiddiwn o'u rhwymedigaethau rheoliadol drwy ein dogfennau canllaw a'n gwasanaeth cynghori.

Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Ac rydym yn rheoleiddio mewn ffordd sy'n effeithiol, yn gymesur ac yn deg.

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoliadol, gallwch chi neu eich sefydliad fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol. [Dysgwch fwy am ein dull o orfodi.](#)

2

Proses ar gyfer cofrestru plaid wleidyddol

Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

Y rheolau a'r broses ar gyfer gwneud cais i gofrestru plaid wleidyddol neu newid marciau adnabod cofrestredig plaid.

Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r canlynol:

- cyflwyniad i'r Comisiwn Etholiadol
- sefydlu plaid wleidyddo neu newid eich manylion
- camau cyflwyno cais
- cwblhau eich cais
- dewis enw, disgrifiadau ac arwyddluniau plaid
- cyflwyno cais eich plaid
- ein hasesiad o'ch cais
- ar ôl y broses gofrestru
- gwrthwynebu ein penderfyniad

Dogfennau cysylltiedig:

- [Cyflwyniad i gofrestru plaid wleidyddol](#)
- [Trosolwg o gynnal manylion plaid](#)
- [Trosolwg o enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau](#)
- [CPE Ar-lein - Dechrau arni](#)
- [Cyflwyniad i fod yn drysorydd plaid](#)

Mae ein holl ganllawiau ar [ein gwefan](#).

Crynodeb

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), rydym yn gyfrifol am gofrestru pleidiau gwleidyddol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon.


Pan fydd pleidiau gwleidyddol yn cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol, gall eu marciau adnabod cofrestredig (enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau) ymddangos ar bapurau pleidleisio mewn etholiad.

Mae pleidiau cofrestredig yn destun nifer o rwymedigaethau hefyd er mwyn sicrhau uniondeb a thryloywder o ran cyllid pleidiau gwleidyddol.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r broses o wneud cais a chofrestru.

4

Mae'r siart llif hwn yn rhoi trosolwg o'r broses o gofrestru plaid yn llwyddiannus



Cyflwyniad

Y Comisiwn Etholiadol - pwy ydym ni

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Ein nod yw sicrhau uniondeb a meithrin hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gwneud y canlynol:

- yn cofrestru pleidiau gwleidyddol ac yn rheoleiddio cydymffurfiaeth pleidiau o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA)
- yn cynnal y cofrestrau o bleidiau gwleidyddol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon
- yn nodi safonau ar gyfer cofrestru etholiadol a chynnal etholiadau, ac yn adrodd ynghylch pa mor dda y caiff hyn ei wneud
- yn cynnal unrhyw refferenda a gynhelir o dan PPERA
- yn cyhoeddi manylion ynghylch ble y mae pleidiau ac ymgyrchwyr etholiadol eraill yn cael arian a sut y maent yn ei wario
- yn sicrhau bod pobl yn deall ac yn dilyn y rheolau ar gyllid pleidiau ac etholiadau
- yn sicrhau bod pobl yn deall ei fod yn bwysig cofrestru i bleidleisio, ac yn gwybod sut i bleidleisio

Sefydlu plaid wleidyddol

Os ydych yn ystyried sefydlu plaid wleidyddol, efallai y bydd angen i chi gofrestru â ni a dilyn y rheolau. Mae rhwymedigaethau cyfreithiol ynghlwm wrth gofrestru plaid wleidyddol. Mae'n ymrwymiad difrifol a dylech feddwl yn ofalus am y cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrtho.

Rhaid i blaid wleidyddol gofrestredig gydymffurfio â'r rheoliadau a'r cyfrifoldebau a nodir yn PPERA. Gall methiant i gydymffurfio â PPERA fod yn drosedd a all arwain at erlyniad neu sancsiynau sifil, yn cynnwys dirwy. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein [Polisi Gorfodi](#).

6

Cyn i chi wneud unrhyw benderfyniadau ynglŷn â chofrestru, rydym yn argymhell eich bod yn darllen [ein canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol](#). Bydd y canllawiau hyn yn eich helpu i benderfynu a ydych am gofrestru, yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y bydd angen i chi ei ddarparu ac yn eich helpu i benderfynu ar ba gofrestr neu gofrestrau yr hoffech ymddangos.

Ar ôl iddi gael ei chofrestru, bydd manylion eich plaid - fel enw'r plaid, unrhyw ddisgrifiadau ac arwyddluniau, enwau swyddogion a chyfeiriad eich pencadlys - ar gael i'r cyhoedd.

Bydd y canllawiau hyn yn rhoi amlinelliad o'r rheolau sylfaenol ac yn sôn wrthyich pryd a sut i gofrestru a ble y gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

Camau y broses o wneud cais

Gallwch gofrestru ar-lein yn [CPE Ar-lein](#). Os na allwch wneud cais ar-lein, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon. Byddwn yn trafod ffordd amgen addas i chi wneud cais, er enghraifft drwy'r post.

Ni chaiff plaid wleidyddol ei chofrestru'n awtomatig ar ôl cyflwyno cais. Rhaid i ni asesu ceisiadau'n ofalus yn erbyn y profion statudol a nodir yn PPERA. Gall y broses hon gymryd amser er mwyn sicrhau ein bod yn dod i gasgliad teg o fewn y gofynion deddfwriaethol. Dylech ddarllen y ddogfen hon a chanllawiau eraill, sydd wedi eu rhestru ar dudalen 1, er mwyn sicrhau eich bod yn deall yr hyn sydd angen i chi ei wneud i gwblhau eich cais. Mae gwahanol ofynion o ran beth fydd angen i chi ddarparu ar gyfer ceisiadau i gofrestru fel plaid newydd o'i gymharu â phlaidd sydd wedi cofrestru eisioes sy'n newid pa farciau adnabod ellir eu defnyddio ar bapurau pleidleisio.

Mae ymgynghorwyr cofrestru ar gael os bydd angen help neu gyngor pellach arnoch. Mae ein manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

Er ein bod yn darparu canllawiau, chi sy'n gyfrifol am benderfynu ar fanylion eich cais a sicrhau bod eich cais yn cydymffurfio â gofynion PPERA. Hyd nes y gwneir penderfyniad terfynol ar eich cais, ni allwn gadarnhau p'un a fydd yn llwyddiannus. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ein rhesymau os byddwn yn gwrthod eich cais.

Mae'n bwysig eich bod yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a roddwch fel rhan o'ch cais yn gywir. Gall fod yn fod yn drosedd os byddwch yn cynnwys gwybodaeth yn eich cais rydych yn gwybod ei bod yn anwir, neu y dylech wybod hynny.

8

Cwblhau eich cais fel plaid sydd eisies wedi cofrestru

Cyn i chi gwblhau eich cais, bydd angen i chi ystyried y canlynol:

- A yw'ch marciau adnabod arfaethedig yn debygol o fodloni'r profion statudol ai peidio
- Faint o ddisgrifiadau neu arwyddluniau sydd gyda chi eisoes. Gallwch ond gofrestru hyd at 12 disgrifiad a hyd at 3 arwyddlun. Efallai bydd angen i chi gael gwared ar ddisgrifiadau neu arwyddluniau cofrestredig i gofrestru rhai newydd.
- Os yw'r blaid wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr, a fydd yn newid ble y gallant ymladd etholiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban
- A yw swyddogion eich plaid wedi cefnogi'r newidiadau

Cwblhau eich cais ar gyfer plaid newydd

Cyn i chi gwblhau eich cais bydd angen i chi feddwl am y canlynol:

- Ymhle y bydd ymgeiswyr y blaid yn ymladd etholiadau (gall pleidiau gwleidyddol wneud cais ar gyfer cofrestr Prydain Fawr, cofrestr Gogledd Iwerddon neu'r ddwy)
- Pa etholiadau y bydd y blaid yn eu hymladd
- Os yw'r blaid wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr, a fydd yn ymladd etholiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban
- Pwy fydd swyddogion y blaid a pha gyfeiriad cyhoeddus y byddwch yn ei ddefnyddio fel cyfeiriad cofrestredig y blaid
- A oes gan y blaid gyfansoddiad. Mae'n rhaid i blaid gofrestredig gael cyfansoddiad a gweithredu yn unol ag ef, ac mae'n rhaid i chi gyflwyno copi gyda'ch cais. Os nad yw eich plaid yn gweithredu o fewn eich cyfansoddiad, efallai bydd eich plaid yn cael ei dadgofrestru
- A oes gan y blaid gynllun ariannol? Mae'n rhaid i bleidiau cofrestredig, heblaw pleidiau llai, fod wedi mabwysiadu cynllun ariannol a gweithredu yn unol ag ef drwy'r amser Mae'n rhaid i chi gyflwyno copi ohono gyda'ch cais. Os nad yw eich plaid yn gweithredu'r prosesau a alinellir yn eich

cynllun ariannol a gweithredu yn unol ag ef, gall eich plaid gael ei dadgofrestru

- O dan ba enw yr hoffai'r plaid gael ei hadnabod?

Mae dau fath o blaid wleidyddol gofrestredig a all sefyll etholiad ac enwebu person i sefyll yn enw'r plaid honno, sef:

- **pleidiau gwleidyddol cofrestredig** all sefyll ym mhob etholiad y mae eu cofrestriad yn berthnasol iddo, un ai ym Mhrydain Fawr neu yng Ngogledd Iwerddon (mae cofrestrau gwahanol yn berthnasol yn y ddwy ardal)
- **pleidiau llai** sydd wedi'u cofrestru ar y sail eu bod ond yn bwriadu sefyll mewn etholiadau plwyf a/neu gymuned yng Nghymru a Lloegr yn y drefn honno

Pleidiau gwleidyddol cofrestredig

Gall pleidiau gwleidyddol cofrestredig ymladd pob etholiad gan gynnwys:

- plwyf a chymuned
- awdurdodau lleol
- Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cynulliad Gogledd Iwerddon
- Senedd yr Alban
- Senedd y DU

Mae PPERA yn rhoi nifer o reoliadau a chyfrifoldebau ar bleidiau gwleidyddol cofrestredig. [Darllenwch ein holl ganllawiau ar gyfer pleidiau.](#)

Pleidiau llai

Dim ond etholiadau cynghorau cymuned (Cymru) a/neu gynghorau plwyf (Lloegr) y mae pleidiau llai yn eu hymladd. Ni all pleidiau llai ymladd etholiadau yn yr Alban.

Caiff pleidiau llai eu cofrestru ar gofrestr Prydain Fawr. Ni allwch gofrestru plaid lai yng Ngogledd Iwerddon.

Etholiadau cynghorau plwyf a chymuned

Yng Nghymru a Lloegr, dim ond etholiadau cynghorau cymuned (Cymru) ac etholiadau cynghorau plwyf (Lloegr) y gall pleidiau ddewis eu hymladd. Os ydych ond yn bwriadu ymladd yr etholiadau hyn, dylech ystyried cofrestru fel plaid lai.

10

O dan PPERA, nid yw pleidiau llai yn gorfod dilyn y rheolaethau ariannol y mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol cofrestredig gydymffurfio â hwy. Dim ond cadarnhad cofrestru blynyddol y mae'n ofynnol iddynt ei gyflwyno i ni. Mae'r wybodaeth y mae angen iddynt ei chyflwyno wrth gofrestru â ni yn llawer llai manwl.

Ble mae'r plaid am ymladd etholiadau?

Er mwyn cofrestru, rhaid bod plaid yn bwriadu ymladd etholiadau. Er enghraifft, rhaid bod gan y plaid o leiaf un ymgeisydd sy'n ymddangos ar ran y plaid ar bapurau pleidleisio mewn un etholiad o leiaf. Fel rhan o'r cais, efallai y gofynnir i chi beth mae'r plaid wedi'i wneud neu beth y bydd yn ei wneud er mwyn cyflawni ei bwriad i ymladd etholiadau.

Fel rhan o'ch cais am gofrestrriad, bydd angen i chi ddewis pa ran o'r DU y bydd ymgeiswyr eich plaid yn ymladd etholiadau ynddi ac ar gyfer pa etholiadau. Os ydych yn bwriadu ymladd etholiadau yng Ngogledd Iwerddon a Phrydain Fawr, bydd angen i chi gyflwyno cais ar wahân i gofrestru plaid gwleidyddol ar y ddwy gofrestr. Mae plaid sydd wedi'i chofrestru yng nghofrestrau Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ddwy plaid ar wahân at ddibenion PPERA.

O dan PPERA, mae gennym ddyletswydd i gynnal cofrestrau pleidiau gwleidyddol. Os ydych wedi cofrestru ond nad ydych yn ymladd etholiadau, efallai y byddwn yn penderfynu nad oes gan eich plaid ddigon o fwriad i ymladd etholiadau. Os felly, efallai na fydd eich plaid yn bodloni'r profion statudol ar gyfer cofrestru mwyach a gellir ei dileu oddi ar y cofrestrau.

Prydain Fawr

Fel rhan o'ch cais i gael eich cynnwys ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol ym Mhrydain Fawr, gofynnir i chi a ydych am ymladd etholiadau yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban neu fwy nag un o'r gwledydd hyn.

Gogledd Iwerddon

Bydd angen i bleidiau sy'n bwriadu ymladd etholiadau yng Ngogledd Iwerddon wneud cais i gael eu cynnwys ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon.

Pa swyddogion sydd eu hangen mewn plaid wleidyddol gofrestredig?

Rhaid i'ch plaid wneid cais i bobl i gael eu cofrestru ar gyfer rolau swyddogol penodol, sef:

- arweinydd y blaid
- trysorydd y blaid - sy'n gyfrifol am sicrhau bod eich plaid yn cydymffurfio â'r rheolau ariannol
- swyddog enwebu - a fydd yn awdurdodi'r defnydd o enw, disgrifiadau ac arwyddluniau'r blaid ar bapurau pleidleisio

Mae'n rhaid bod gan y blaid o leiaf ddau swyddog. Os mai un person fydd yn cyflawni pob un o'r tair rôl swyddogol, rhaid i chi gofrestru rhywun fel swyddog ychwanegol. Mae'n rhaid i'r swyddog ychwanegol yma gael rôl penodol o fewn y blaid.

Ni all yr un person gyflawni rolau'r trysorydd a'r swyddog enwebu oni bai mai nhw yw'r arweinydd hefyd.

Nid oes gofyn i chi benodi trysorydd os ydych yn cofrestru plaid lai. Rhaid i bob un o swyddogion eich plaid, gan gynnwys unrhyw swyddogion dewisol, os oes gofyn i chi gael un, lofnodi eich ffurflen gais.

Rolau swyddogion dewisol

- Swyddog ymgyrchu - a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod eich plaid yn cydymffurfio â'r rheolau ariannol ar gyfer gwariant yr ymgyrch yn lle'r trysorydd. Ni allant ymgymryd â rôl y trysorydd hefyd
- Swyddog ychwanegol - rhaid i chi wneud cais i gael swyddog ychwanegol os mai arweinydd y blaid yw'r trysorydd a'r swyddog enwebu hefyd

Pa swyddogion sydd eu hangen mewn plaid lai?

Dim ond arweinydd y blaid a swyddog enwebu y mae angen i bleidiau llai eu cofrestru.

12

Mae'n rhaid i o leiaf ddau unigolyn gyflawni'r rolau hyn. Os bydd un person yn cyflawni'r ddwy rôl swyddogol, rhaid i chi gofrestru rhywun fel swyddog ychwanegol.

Y cynllun ariannol

Heblaw eich bod yn blaid llai, rhaid i chi gynnwys cynllun ariannol i ni ei gymeradwy fel rhan o'ch cais. Rhaid bod y cynllun ariannol y byddwch yn ei gynnwys wedi'i fabwysiadu gan y blaid.

Mae eich cynllun ariannol yn nodi'r prosesau sydd gennych ar waith a fydd yn galluogi'ch plaid i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol cyllid pleidiau ac etholiadau o dan PPERA.

Rhaid i'ch cynllun gynnwys gweithdrefnau ar gyfer y canlynol:

- cofnodion cyfrifyddu
- ymdrin â rhoddion a benthyciadau
- cynnal eich manylion cofrestru â ni
- awdurdodi gwariant yr ymgyrch a chyflwyno adroddiadau arno

Dylech sicrhau bod holl swyddogion cofrestredig arfaethedig y blaid yn llofnodi'r cynllun.

Rydym yn cynhyrchu [templed ar gyfer y cynllun](#) y gallwch ei ddefnyddio fel dogfen i greu cynllun ariannol ar gyfer eich plaid eich hun. Nid oes rhaid i chi ddefnyddio'r cynllun hwn. Templed yn unig ydyw a rhaid i'r cynllun a gyflwynir gan y blaid gyda'i chais adlewyrchu'n gywir sut mae'r blaid yn gweithredu yn ymarferol.

Fel rhan o'r broses asesu, gellir gofyn i chi ddangos sut mae'r blaid wedi mabwysiadu ei chynllun ariannol. Er enghraifft, gellir gofyn i chi ynghylch pa weithrefnau sydd gan y blaid er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau a nodir yn ei chynllun ariannol.

Mae plaid sydd wedi'i chofrestru yng nghofrestrau Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ddwy blaid gofrestredig ar wahân at ddibenin PPERA. Pan fyddwch yn gwneud cais i gofrestru yng nghofrestrau Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, rhaid i'ch cynllun ariannol ddangos yr ymdrinnir â materion ariannol y blaid ym Mhrydain Fawr ar wahân i faterion ariannol y blaid yng Ngogledd Iwerddon. Os byddwch yn defnyddio'r cynllun

templed, rhaid i chi sicrhau ei fod wedi'i ddiwygio i adlewyrchu hyn.

Mae hyn yn bwysig am fod y rheolau ynghylch ble y gall plaid gael ei chyllid yn amrywio yn dibynnu ar ba gofrestr y mae'r blaid wedi cofrestru ynddi.

Gall methiant i gydymffurfio â'r rheolau ynghylch llunio adroddiadau ariannol a nodir yn PPERA fod yn drosedd a all arwain at erlyniad neu sancsiynau sifil, yn cynnwys dirwy.

Os oes gennych unedau cyfrifyddu, nid yw ein cynllun templed safonol yn addas. Gallwn roi cyngor ar beth sy'n ofynnol, felly cofiwch gysylltu â ni.

Rhaid i'ch cynllun ariannol adlewyrchu sut y caiff y blaid ei rhedeg a'i rheoli mewn perthynas â'r gweithdrefnau uchod.

Os bydd y gweithdrefnau hyn yn newid, neu os na fydd person a enwir yn y cynllun yn swyddog plaid gofrestredig mwyach, bydd angen i chi ddiweddarau eich cynllun ariannol. Os byddwch yn diweddarau eich cynllun ariannol, rhaid i chi roi copi wedi'i ddiweddarau i ni i'w gymeradwyo.

Os na fyddwn yn fodlon bod eich cynllun ariannol yn nodi'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio materion ariannol y blaid at ddibenion PPERA, na'i fod wedi'i fabwysiadu gan y blaid, caiff eich cais ei wrthod.

Cyfansoddiad plaid

Mae PPERA yn ei gwneud yn ofynnol i blaid gael cyfansoddiad ysgrifenedig sy'n nodi strwythur a threfniadaeth plaid.

Fel rhan o'ch cais, rhaid i chi ddarparu cyfansoddiad eich plaid. Dylai ddangos y trefniadau ar gyfer llywodraethu eich plaid, a'r rheolau ar gyfer cynnal busnes.

Mae'n rhaid i'ch cyfansoddiad fod yn gyson gyda phrosesau a manylion eich cynllun ariannol o dan PPERA. Er enghraifft, dylai'r ddwy ddogfen gytuno o ran sut y caiff eich cyfrifon eu cymeradwyo, a phwy sy'n gyfrifol am y cyfrifon.

Rhaid i'ch cyfansoddiad adlewyrchu sut y caiff eich plaid ei rhedeg a'i rheoli. Fel canllaw, dylai eich cyfansoddiad gynnwys y canlynol:

- Manylion y gofrestr neu'r cofrestrau y mae'r blaid yn gwneud cais i gael ei chofrestru ynddynt. Mae plaid sydd wedi'i chofrestru yng nghofrestrau Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ddwy blaid ar wahân at ddibenion PPERA. Pan fydd plaid yn gwneud cais i gofrestru yng nghofrestrau Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, rhaid i gynllun ariannol y blaid ddangos yr ymdrinnir â materion ariannol y blaid ym Mhrydain Fawr ar wahân i faterion ariannol y blaid yng Ngogledd Iwerddon. Dylai'r cyfansoddiad hefyd adlewyrchu'r canlynol
- Marciau ac amcanion y blaid.
- Cyfeiriad at fwriad i ymladd etholiadau ac ym mha fath o etholiad, er enghraifft etholiadau cyffredinol senedd y DU.
- Y broses o ddethol ymgeisydd (neu ddatganiad y bydd gan y blaid un o leiaf).
- Strwythur y blaid a phwy sy'n gyfrifol am reoli'r blaid, yn cynnwys cyfrifoldeb swyddogion y blaid, cyfnodau swyddi a'r weithdrefn ar gyfer newid y swyddogion hynny.
- Sut y bydd y blaid yn gwneud ac yn cofnodi penderfyniadau, yn ogystal ag unrhyw drefniadau llywodraethu eraill. Er enghraifft, amllder cyfarfodydd, eu hamseriad a'r mathau o gyfarfodydd a'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd.
- A oes gan y blaid aelodaeth, ac os felly, y broses a'r rheolau ar gyfer rheoli'r aelodaeth honno.
- Bod y blaid wedi mabwysiadu ei chynllun ariannol.
- Sut y gellir newid y cyfansoddiad a'r broses ar gyfer diddymu'r blaid.

Os nad yw eich cyfansoddiad yn cynnwys digon o wybodaeth am strwythur a threfniadaeth eich plaid, caiff eich cais ei wrthod.

Dylech sicrhau bod eich cyfansoddiad a'r modd y mae'r blaid yn gweithredu yn cydymffurfio â chyfraith cydraddoldeb. Os na wnewch hynny, caiff eich cais ei wrthod. Dylech ddarllen y canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol a luniwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sydd ar [gael ar ei wefan](#).

Dylech ddiweddarau eich cyfansoddiad yn rheolaidd a rhoi gwybod i ni am unrhyw newid sy'n digwydd i'ch cyfansoddiad yn ystod y cyfnod blynyddol o gadarnhau manylion cofrestredig. **Rhaid i chi hefyd ddarparu copi wedi'i ddiweddarau bob tro y byddwch yn ei newid.**

Dewis enw, disgrifiadau ac arwyddluniau

Fel rhan o'ch cais i gofrestru, rhaid i chi nodi enw. Yn ogystal â'ch enw gallwch hefyd wneud cais i gofrestru'r canlynol:

- hyd at 12 o ddisgrifiadau o'r blaid
- hyd at 3 arwyddlun.

Wrth benderfynu ar ba enw plaid, disgrifiadau ac arwyddluniau i wneud cais i'w cofrestru, dylech sicrhau eich bod yn darllen [ein canllawiau ar enwau plaid, disgrifiadau ac arwyddluniau](#).

Er mwyn eich helpu i wneud eich penderfyniad, dylech [chwilio drwy'r cofrestrau](#) er mwyn penderfynu a oes unrhyw farciau adnabod tebyg ar y gofrestr. Os yw'n debygol y bydd eich marciau adnabod arfaethedig yn golygu y bydd pleidleiswyr yn drysu rhyngddynt a marciau adnabod plaid gofrestredig arall, ni fyddwn yn eu cofrestru.

Dylech hefyd chwilio ar y rhynggrwyd i weld a oes unrhyw grwpiau neu sefydliadau presennol sydd ag enw neu logo yr un fath, neu'n debyg i'r marciau adnabod rydych am wneud cais i'w cofrestru. Ni allwn gofrestru marc adnabod sy'n debygol o olygu y bydd pleidleisiwr yn cael ei gamarwain.

Gallwch wneud cais i newid enw eich plaid, y disgrifiadau ohoni a'u harwyddluniau, ac ychwanegu disgrifiadau ar y cyd yn ddiweddarach os hoffech wneud hynny am ffi gwneud cais ychwanegol o £25 y cais na chaiff ei had-dalu.

Beth yw disgrifiad?

Marc adnabod dewisol yw disgrifiad o'r blaid y gallwch gofrestru yn ogystal ag enw'r blaid. Rhaid i bleidleisiwr allu adnabod eich plaid o'r disgrifiad. Er enghraifft, byddai cynnwys enw'r blaid yn y disgrifiad yn un ffordd o wneud hynny.

Ni all disgrifiad fod yn union yr un fath ag enw'r blaid.

Gallwch ddewis cofrestru hyd at 12 o ddisgrifiadau gyda ni. Os nad ydych yn cofrestru disgrifiad, gall eich ymgeiswyr ond ddefnyddio enw cofrestredig eich plaid ar y papur pleidleisio ynghyd â'u henw neu arwyddlun.

Yn dibynnu ar yr etholiad dan sylw, gellir ei ddefnyddio disgrifiada fel dewis amgen i enw'r blaid neu yn ychwanegol at enw'r blaid ar y papur pleidleisio. Gallwch hefyd gofrestru disgrifiadau ar y cyd â phlaid neu bleidiau eraill. Gallwch ond gofrestru un disgrifiad am bob grwpriad neu gynghrair.

Nid oes angen i chi gofrestru unrhyw negeseuon yr ydych yn bwriadu eu defnyddio mewn ymgyrch gyda ni. Dylech ond gofrestru disgrifiad os ydych yn bwriadu ei ddefnyddio ar y papurau pleidleisio.

Beth yw arwyddlun?

Cynrychiolaeth weledol, ddewisol (neu logo) yw ei harwyddlun. Bydd eich plaid a'i hymgeiswyr yn gallu dewis defnyddio un o'ch arwyddluniau ar bapurau pleidleisio ym mhob etholiad

Darparu arwyddluniau du a gwyn

Rhaid i arwyddluniau sy'n ymddangos ar y gofrestr a phapurau pleidleisio fod mewn du a gwyn. Rhaid i chi roi fersiwn du a gwyn o'ch arwyddlun i ni i'w gofrestru.

Caiff unrhyw arwyddlun a gyflwynir mewn lliw ei wrthod.

Cadarnhau nad oes marciau adnabod tebyg (enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau)

Mae llawer o bleidiau eisoes wedi cofrestru geiriau ac ymadroddion cyffredin yn eu marciau adnabod. Cyn i chi gyflwyno eich enw arfaethedig, disgrifiadau ac arwyddluniau, dylech gadarnhau nad ydynt yn debyg i'r rhai sydd eisoes ar y gofrestr. Os bydd eich marciau adnabod arfaethedig chi yn debygol o arwain at bleidleiswyr yn ei gymysgu â marciau adnabod plaid gofrestredig arall, ni fyddwn yn gallu eu cofrestru. [Dylech chwilio drwy'r cofrestrau.](#)

Dylech hefyd chwilio ar y rhynggrwyd i weld a oes unrhyw grwpiau neu sefydliadau presennol sydd ag enw neu logo yr un fath, neu'n debyg i'r marciau adnabod rydych am wneud cais i'w cofrestru. Ni allwn gofrestru marc adnabod sy'n debygol o olygu y bydd pleidleisiwr yn cael ei gamarwain. Er enghraifft, ni allwn gofrestru marc adnabod y mae'r Comisiwn o'r farn ei fod yn debygol o olygu y bydd pleidleisiwr yn credu ei fod yn pleidleisio dros sefydliad ar wahân i'r blaid neu sefydliad nad yw'n gysylltiedig â'r blaid.

Pa farciau adnabod na allwn eu cofrestru?

Fel canllaw, ni allwn gofrestru unrhyw farciau adnabod sydd, ym marn y Comisiwn:

- yn debygol o gamarwain pleidleiswyr ynghylch effaith eu pleidlais
- yr un peth â marc adnabod cofrestredig arall sydd eisoes yn ymddangos ar yr un gofrestr
- yr un peth â marc adnabod plaid sydd wedi dadgofrestru oedd ar yr un gofrestr, ac sydd wedi'i ddiogelu yn debygol o arwain at bleidleiswyr yn ei ddrysu gyda marc adnabod plaid arall sydd eisoes wedi cofrestru neu ddiogelu
- sy'n debygol o wrth-ddweud neu rwystro cyfarwyddiadau neu ganllawiau ar gyfer pleidleisio
- ei fod yn anlladus neu'n sarhaus
- yn cynnwys rhai geiriau a waherddir
- yn, neu'n cynnwys acronym neu dalfyriad nad yw'n hysbys na ddefnyddir yn gyffredin a ddim wedi ei sillafu allan
- yn cysylltu â deunydd ar-lein mewn unrhyw fodd neu'n cyfeirio at gynnwys ar-lein
- yn cynnwys cyfeiriad at enw person heblaw bod y person yn gysylltiedig uniongyrchol â'ch plaid
- arwyddlun sy'n cynnwys testun na ellir ei ddarllen ar y maint y mae'r arwyddlun yn ymddangos ar y papurau pleidleisio (2cm sgwâr)
- ei fod yn cynnwys mwy na chwe gair
- ddim mewn sgrïpt Rufeinig
- yn debygol o fod yn drosedd os caiff ei gyhoeddi

I gael rhagor o fanylion ar y profion, a sut rydym yn eu defnyddio, darllenwch ein dogfen ganllaw [Trosolwg o enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau](#).

A allwch gofrestru marciau adnabod pleidiau mewn iaith ar wahân i Saesneg?

Gallwch wneud cais i ddefnyddio iaith ar wahân i Saesneg yn y marciau adnabod i'w defnyddio ar bapurau pleidleisio.

Er enghraifft, efallai y byddwch am gofrestru marc adnabod eich plaid yn Gymraeg a Saesneg (ar gyfer cofrestr Prydain Fawr) neu yn Saesneg a Gwyddelig (ar gyfer cofrestr Gogledd Iwerddon).

Yng Nghymru, os ydych wedi cofrestru marc adnabod eich plaid yn Gymraeg a Saesneg, gallwch ddewis arddangos y ddau ohonynt ar bapurau pleidleisio.

Bydd hyn yn golygu y gallwch ddewis yr iaith fwyaf priodol ar gyfer marc adnabod eich plaid i ymddangos ar bapurau pleidleisio yng Nghymru.

Ar gyfer pob iaith arall, bydd y cyfieithiad Saesneg o enw'ch plaid yn ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus, ond ni ellir ei ddefnyddio ar y papur pleidleisio ar ei ben ei hun.

Ni all y marc adnabod arfaethedig fod yn hirach na chwe gair mewn unrhyw iaith.

Os ydych am gofrestru marc adnabod plaid mewn iaith ar wahân i Saesneg, rhaid i chi ddarparu cyfieithiad Saesneg cywir fel rhan o'ch cais.

Fel rhan o'n hasesiad o farc adnabod eich plaid byddwn yn dilysu bod y cyfieithiad yn gywir. Byddwn fel arfer yn rhoi gwybod i chi os yw'r cyfieithiad yn gywir neu'n anghywir neu os oes ffordd well o gyfieithu'r marc adnabod.

Rhaid i farc adnabod plaid gael ei nodi mewn sgrïpt Rufeinig, hyd yn oed os yw wedi'i gofrestru mewn iaith ar wahân i Saesneg. Mae'n debygol o gael ei dderbyn os gallwch ddefnyddio bysellfwrdd o'r DU i gynhyrchu'r marc adnabod heb ddefnyddio marciau arbennig. Cysylltwch â ni os nad ydych yn siŵr o'r hyn y gellir ei dderbyn.

Manylion eraill y bydd gofyn i chi eu darparu yn eich cais i gofrestru plaid newydd

Bydd gofyn i chi ddarparu'r canlynol fel rhan o'ch cais i gofrestru plaid newydd:

- manylion eich plaid a fydd ar gael i'r cyhoedd - fel enw'r plaid, unrhyw ddisgrifiadau ac arwyddluniau, a chyfeiriad y pencadlys
- manylion swyddogion y plaid a gwybodaeth gyswllt (bydd angen rhoi eu cyfeiriadau cartref ond ni fyddant ar gael i'r cyhoedd)
- y rhannau o'r DU rydych am gofrestru i ymladd etholiadau ynddynt
- manylion eich unedau cyfrifyddu (os ydych yn bwriadu eu cael). Bydd canghennau'r plaid yn unedau cyfrifo os ydynt yn gyfrifol am eu materion a thrafodion ariannol eu hunain at ddibenion gofynion cyfrifo PPERA.

Gallwch hefyd ddweud wrthym os nad ydych yn bwriadu ymladd etholiadau cyffredinol y DU

Cyflwyno eich cais am plaid newydd atom

Gallwch gofrestru ar-lein gan ddefnyddio [CPE Ar-lein](#).

Bydd angen i'ch cais ar gyfer plaid newydd gynnwys y canlynol:

- ffurflen gais wedi'i chwblhau copi o gyfansoddiad eich plaid
- copi o gynllun ariannol eich plaid a fabwysiadwyd gan y plaid
- ffi gwneud cais o £150 na chaiff ei had-dalu. Os fyddwch yn anfon sic, gwnewch y sic yn daladwy i 'The Electoral Commission'

20

Bydd angen i'ch ffurflen gynnwys:

- enw'ch plaid
- disgrifiadau ac arwyddluniau os byddwch yn dewis gwneud cais i gofrestru rhai
- cyfeiriad pencadlys eich plaid a manylion cyswllt
- ble'r ydych yn bwriadu ymladd etholiadau, er enghraifft ym Mhrydain Fawr neu Ogledd Iwerddon

Bydd hefyd angen i chi gwblhau'r datganiadau ar y ffurflen gan swyddogion y blaid sy'n nodi bod:

- y blaid yn bwriadu ymladd etholiadau
- gan y blaid brosesau yn eu lle i gydymffurfio â'r rheolau sy'n llywodraethu gweithgareddau etholiadol ac ariannol pleidiau.

Dylai'r arwyddluniau yr ydych yn eu cyflwyno fod yn ddu a gwyn a dylent fodloni'r canlynol:

- yn 5cm sgwâr
- cydraniad ansawdd uchel – o leiaf 300dpi neu'n uwch
- fod ar fformat 'jpeg' neu 'gif'

Os na allwch wneud cais ar-lein, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon. Byddwn yn trafod ffordd amgen addas i chi wneud cais, er enghraifft drwy'r post.

Cyflwyno eich cais fel plaid sydd eisoes wedi cofrestru

Gallwch wneud cais ar-lein gan ddefnyddio [CPE Ar-lein](#).

- Mae'n rhaid i'ch cais fel plaid wleidyddol sydd wedi cofrestru eisoes gynnwys y canlynol:ffurflen gais wedi'i chwblhau
- ffi gwneud cais o £25 na chaiff ei had-dalu. Os byddwch yn anfon siec, gwnewch y siec yn daladwy i 'The Electoral Commission'

Bydd angen i'ch ffurflen gynnwys:

- enw, disgrifiadau neu arwyddluniau arfaethedig

- os ydych am gael gwared ar unrhyw ddisgrifiadau neu arwyddluniau
- os ydych am newid lle'r ydych yn bwriadu ymladd etholiadau
- llofnodion neu ddilysiadau bod swyddogion eich plaid yn cefnogi'r newidiadau

Dylai'r arwyddluniau yr ydych yn eu cyflwyno fod yn ddu a gwyn a dylent fodloni'r canlynol:

- yn 5cm sgwâr
- cydraniad ansawdd uchel – o leiaf 300dpi neu'n uwch
- fod ar fformat 'jpeg' neu 'gif'

Os na allwch wneud cais ar-lein, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon. Byddwn yn trafod ffordd amgen addas i chi wneud cais, er enghraifft drwy'r post.

Cyflwyno eich cais

Os hoffech gofrestru plaid neu wneud newidiadau i blaid sydd eisoes wedi'i chofrestru, gallwch wneud cais ar-lein drwy ddefnyddio [CPE Ar-lein](#). Os na allwch wneud cais ar-lein, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon. Byddwn yn trafod ffordd amgen addas i chi wneud cais, er enghraifft drwy'r post.

Rhaid i ni asesu ceisiadau'n ofalus yn erbyn y profion statudol a nodir yn PPERA. Gall y broses hon gymryd amser er mwyn sicrhau ein bod yn dod i gasgliad teg o fewn y gofynion deddfwriaethol.

Dylech gyflwyno eich cais mewn da bryd cyn yr etholiad rydych yn bwriadu ei ymladd. Cysylltwch â ni os hoffech gofrestru eich plaid er mwyn sefyll mewn etholiad y caiff yr hysbysiad o etholiad ar ei gyfer ei gyhoeddi mewn llai na chwe wythnos. Bydd eich swyddog canlyniadau lleol yn gallu rhoi gwybod i chi beth yw'r diwrnod olaf i gyflwyno papurau pleidleisio

Yn ystod y cyfnod cyn yr etholiadau isod, gallwn gyhoeddi dyddiadau cau ar gyfer ystyried ceisiadau ar ein gwefan:

- etholiadau lleol ac etholiadau maerol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban, heb gynnwys is-etholiadau
- etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throsedd
- etholiadau ar gyfer Cynulliad Llundain Fwyaf
- etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon
- etholiadau Senedd yr Alban
- etholiadau Senedd y DU

Ar ôl i'r dyddiad cau fynd heibio, mae'n annhebygol y byddwch yn cael penderfyniad ar y cais mewn pryd i'w ddefnyddio ar bapurau pleidleisio yn yr etholiad. Os oedd y cais a gyflwynwyd gennych cyn y dyddiad cau yn anghyflawn, neu os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom ar gyfer eich cais, mae hefyd yn annhebygol y byddwch yn cael penderfyniad ar y cais mewn pryd.

Alla i dalu am fy nghais yn uniongyrchol drwy drosglwyddiad banc neu'n electronig?

Byddwch yn gallu talu ar-lein yn ystod y broses o wneud cais ar CPE Ar-lein. Gallwch hefyd dalu drwy siec, archeb arian, neu drwy drosglwyddiad banc uniongyrchol. Os byddwch yn anfon y taliad drwy siec, dylech ei wneud yn daladwy i 'The Electoral Commission'.

Gwneud cais ar-lein

I wneud cais ar-lein, defnyddiwch ein system Cyllid Pleidiau ac Etholiadau ar-lein, sef [CPE Ar-lein](#). Byddwch yn gallu cwblhau a chyflwyno'r cais ar-lein a thalu'n electronig pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais.

Nodwch, i wneud cais ar-lein, mae'n rhaid bod gan bob swyddog eich plaid gyfrif e-bost ar wahan.

Unwaith y byddwch wedi cofrestru, gallwch ddefnddio [CPE Ar-lein](#) i reoli manylion eich plaid a rhwymedigaethau adrodd.

Gallwch adalw a diweddarau eich gwybodaeth bresennol yn y system. Gallwch hefyd greu a storio cofnodion ariannol a'u diweddarau cyn eu cyflwyno i ni.

Os hoffech gofrestru ar-lein, ewch i [CPE Ar-lein](#) am ganllawiau ar sut i wneud cais.

Ein hasesiad o'ch cais

Cam 1: Rydym yn derbyn, cydnabod ac yn gwirio eich cais

Byddwn yn cynnal archwiliad cychwynnol i sicrhau bod eich cais yn cynnwys yr holl wybodaeth a dogfennau gofynnol a bod eich ffi wedi'i thalu.

Os byddwn yn nodi unrhyw broblemau cychwynnol gyda'ch cais, efallai y byddwn yn ei oedi am gyfnod rhesymol ac yn cysylltu â'ch plaid er mwyn eich galluogi i ystyried y materion a godwyd gennym a gwneud newidiadau i'ch cais os bydd angen.

Mae'n anochel y gall hyn oedi penderfyniad ar y cais, fodd bynnag, rydym yn gwneud hyn er mwyn helpu plaid gyda'i chais. Dylech nodi mai eich cyfrifoldeb chi yn y pen draw yw penderfynu ar fanylion eich cais a sicrhau bod eich cais yn cydymffurfio â gofynion PPERA. Hyd nes y gwneir penderfyniad terfynol ar eich cais, ni allwn gadarnhau p'un a fydd yn llwyddiannus. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ein rhesymau os byddwn yn gwrthod eich cais.

Bydd angen i holl swyddogion y blaid awdurdodi unrhyw newidiadau i'ch cais.

Os na fyddwn yn clywed gennych erbyn y dyddiad cau, gellir gwrthod eich cais. Os bydd yr holl wybodaeth a dogfennau gofynnol wedi eu cynnwys, byddwn yn cydnabod y cais yn ffurfiol. Yna bydd cam nesaf y broses o wneud cais yn cychwyn.

Dylech fod yn ymwybodol mai archwiliad cychwynnol o'ch cais ar yr olwg gyntaf yn unig a geir ar y cam hwn a'i bod yn bosibl y caiff rhagor o faterion eu nodi ar gam diweddarach.

Cam 2: Cyhoeddi eich marciau adnabod arfaethedig i roi sylwadau arnynt

Cyn gwneud penderfyniad ar y cais, fel arfer, byddwn yn cyhoeddi eich marciau adnabod arfaethedig ar gael ar ein gwefan er mwyn i'r cyhoedd roi sylwadau arnynt. Bydd eich marciau adnabod ar-lein hyd nes i ni wneud penderfyniad os ydym yn eu cofrestru ai peidio. Gall unrhyw un wneud sylwadau ar eich marciau adnabod arfaethedig yn ystod y cyfnod yma.

Byddwn yn ystyried unrhyw sylwadau a wneir ac yn ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol wrth asesu eich cais.

Gallwch danysgrifio i hysbysiad e-bost ein bod yn cyhoeddi'r hysbysiadau [hyn](#) drwy gysylltu â ni.

Cam 3: Asesu eich cais

Bydd y Tîm Rheoleiddio yn asesu eich cais yn erbyn y profion statudol yn PPERA, a fydd yn cynnwys y canlynol:

- Dilysu'r wybodaeth a ddarperir yn eich cais. Bydd hyn yn golygu gwirio, er enghraifft, bod cyfeiriadau cartref wedi eu rhoi ar gyfer swyddogion y plaid.
- Adolygu eich cyfansoddiad a'ch cynllun ariannol i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion PPERA. Asesu a yw enw arfaethedig eich plaid, ynghyd ag unrhyw ddisgrifiadau ac unrhyw arwyddluniau arfaethedig, yn bodloni profion statudol PPERA.

Mae'n bosibl y byddwn yn nodi materion gyda'r cais gan awgrymu y dylech eu hystyried ar y cam hwn. Os felly, efallai y byddwn yn oedi eich cais am gyfnod rhesymol er mwyn eich galluogi i ymateb. Gall unrhyw oedi cyn ymateb arwain at oedi'r gwaith o brosesu eich cais. Os na fyddwn yn clywed gennych erbyn y dyddiad cau gellir gwrthod eich cais.

Cam 4: Ein penderfyniad

Unwaith i'r asesiad gael ei gwblhau bydd yn cael ei roi, ynghyd â'r sylwadau perthnasol gerbron Bwrdd Cymeradwy mewnol y Comisiwn. Mae'r Bwrdd hwn yn cynnwys uwch swyddogion y Comisiwn. Cadeirydd y Bwrdd yw'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio, sydd fel arfer yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran eich cais.

Unwaith y byddwn wedi gwneud penderfyniad, byddwn yn rhoi gwybod i chi a yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ein penderfyniad ar-lein.

Os caiff eich cais, neu ran o'ch cais, ei wrthod, byddwch yn gallu cyflwyno cais newydd. Ni fydd rhaid i chi dalu ffi gwneud cais arall os byddwch yn cyflwyno cais i ni o fewn un mis calendr o'r adeg y byddwn yn cysylltu â chi. Dim ond un cyfle a gewch i gyflwyno cais newydd heb ffi. Bydd angen ffi gwneud cais na chaiff ei had-dalu ar gyfer unrhyw geisiadau pellach ar ôl hynny.

Beth fydd yn digwydd os byddwn yn penderfynu nad yw eich cais yn gyflawn?

Os nad yw eich cais yn gyflawn, ni ellir cofrestru'r plaid.

Beth fydd yn digwydd os nad yw eich cynllun ariannol neu'ch cyfansoddiad yn bodloni gofynion PPERA?

Os nad yw eich cynllun ariannol neu'ch cyfansoddiad yn bodloni gofynion PPERA, ni ellir cofrestru'r plaid.

Beth fydd yn digwydd os na allwn gofrestru enw eich plaid?

Os nad yw enw eich plaid yn bodloni'r profion statudol yn ein barn ni, ni ellir cofrestru'r plaid.

Beth fydd yn digwydd os na allwn gofrestru eich disgrifiad neu arwyddlun?

Ar yr amod bod gweddiill eich cais yn bodloni'r profion statudol, byddwn yn mynd ati i gofrestru eich plaid o hyd. Ond byddwn yn gwrthod y disgrifiad neu'r arwyddlun penodol nad yw'n bodloni'r gofynion.

Faint o amser y bydd y broses gofrestru yn ei gymryd?

Rydym yn prosesu ceisiadau o'r adeg y dânt i law i'r adeg y penderfynir arnynt cyn gynted â phosibl, fodd bynnag, rydym yn cymryd yr amser sydd ei angen arnom i asesu cais a chael ein bodloni ein bod yn gwneud y penderfyniad cywir. Mae penderfyniadau ar geisiadau cofrestru yn benderfyniadau statudol pwysig.

Rhaid i ni asesu ceisiadau yn ofalus yn erbyn y profion statudol yn PPERA. Gall y broses hon gymryd amser er mwyn sicrhau ein bod yn dod i gasgliad teg o fewn y gofynion deddfwriaethol.

Pan fyddwch wedi darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnom er mwyn ystyried eich cais, bydd y broses gofrestru fel arfer yn cymryd tua chwe wythnos. Mewn rhai achosion, gall gymryd llai neu fwy o amser na hynny.

Gwrthwynebu ein penderfyniad

Os byddwn yn gwrthod eich cais yn gyffredinol, neu'n gwrthod marc adnabod penodol, gallwch ddewis cyflwyno cais newydd. Caiff pob cais ei asesu yn erbyn y profion statudol yn PPERA. Byddwn bob tro yn esbonio pam ein bod wedi gwrthod cais. Os oes gennych gwestiynau am y rhesymau dros ein penderfyniad i wrthod cais neu farc adnabod penodol, cysylltwch â ni.

Nid oes hawl apelio statudol yn erbyn ein penderfyniad. Os byddwch yn anghytuno â'n penderfyniad a'r rhesymau drosto, rhaid i chi geisio rhwymedi drwy'r llysoedd drwy wneud cais am adolygiad barnwrol o'n penderfyniad. Gallech hefyd holi a fyddai'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd yn barod i ystyried y mater ond byddai angen i chi ddilyn ein proses gwyno y cyfeirir ati isod yn gyntaf.

Os credwch nad ydym wedi dilyn ein proses weinyddol ein hun a amlinellir yn y siart llif ar dudalen 2 o'r canllawiau hyn wrth wneud penderfyniad ar eich cais, gallwch gwyno drwy ddefnyddio ein proses gwyno.

28

Mae'r broses hon yn ymdrin â'r canlynol:

- methiant i gasglu neu ystyried gwybodaeth benodol yn gywir
- rhagfarn wrth ddod i benderfyniad
- oedi afresymol

Rhaid i chi fod yn glir ynghylch natur eich cwyn, gan ddarparu tystiolaeth lle y bo'n bosibl yn hytrach na gwneud honiad yn seiliedig ar y ffaith eich bod yn anghytuno â chanlyniad penderfyniad.

Mae ein gwe-dudalen cwynion [yma](#) yn cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cwyn.

Ar ôl y broses gofrestru

Ar ôl i chi gofrestru'n llwyddiannus, byddwn yn anfon gwybodaeth atoch am eich rhwymedigaethau fel plaid wleidyddol gofrestredig.

O dan PPERA, rhaid i blaid wleidyddol gofrestredig wneud y canlynol, er enghraifft:

- sicrhau bod pob rhodd a benthyciad dros £500 yn dod o ffynonellau yn y DU yn bennaf
- rhoi gwybod am roddion a benthyciadau bob chwarter, a phob wythnos yn ystod etholiad cyffredinol Senedd y DU
- cydymffurfio â therfynau gwario'r ymgyrch yn ystod etholiadau, a rhoi gwybod i ni am yr arian a gaiff ei wario ar yr ymgyrch
- cadw cyfrifon a chofnodion cywir
- anfon cyfrifon blynyddol atom
- os yw incwm neu wariant y blaid dros £250,000 y flwyddyn, rhaid i chi hefyd anfon adroddiad archwilydd ar eich cyfrifon blynyddol
- gweithredu'n gyson gyda'ch cyfansoddiad a'ch cynllun ariannol, a sicrhau eu bod yn gyfredol
- diweddarau manylion y blaid, a'u cadarnhau'n flynyddol

Diben y rheolau hyn yw sicrhau uniondeb a thryloywder o ran cyllid pleidiau gwleidyddol. Os na fyddwch yn eu dilyn, gallech fod yn destun dirwyon neu gamau gorfodi eraill. Mewn rhai achosion, gall hyn gynnwys eich cyfeirio am erlyniad troseddol yn ogystal â dadgofrestru eich plaid.

Mae gennych gyfrifoldebau sylweddol fel plaid wleidyddol, felly mae'n bwysig eich bod yn deall y rheolau hyn yn llawn cyn i chi gofrestru â ni. Dylech sicrhau eich bod yn ymgyfarwyddo â'r canllawiau sydd ar gael ar gyfer pleidiau gwleidyddol ar ein gwefan.

Rydym hefyd yn darparu canllawiau i [ymgeiswyr ac asiantiaid](#) ar sut i sefyll etholiad, ynghyd â'u hawliau a'u cyfrifoldebau.

Cynnal a newid manylion eich plaid

O dan PPERA, rhaid i chi sicrhau bod eich manylion cofrestru yn cael eu diweddarau. Gall methiant i wneud hynny olygu eich bod yn torri PPERA a allai arwain at ddirwy.

Bob blwyddyn, mae'n rhaid i chi gadarnhau eich manylion cofrestru mewn [cadarnhad cofrestru blynyddol](#). Os byddwch yn methu â darparu cadarnhad cyflawn a chydawns erbyn y dyddiad cau, caiff y plaid ei dadgofrestru. Mae gan y trysorydd cofrestredig ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau y caiff y cadarnhad ei ddarparu bob blwyddyn erbyn y dyddiad cau. Rydym yn awgrymu'n gryf eich bod yn gosod nodyn atgoffa i'ch hun er mwyn sicrhau eich bod yn bodloni'r dyddiad cau hwn.

Gallwch newid eich manylion ac ychwanegu neu newid disgrifiadau ac arwyddluniau unrhyw bryd ar ôl i chi gofrestru. Codir ffi gwneud cais o £25 na chaiff ei had-dalu am wneud newidiadau i enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau plaid. Bob tro y byddwch yn gwneud cais i gofrestru dynodydd newydd, caiff ei asesu gennym ni yn erbyn y profion statudol yn PPERA. Gall y broses hon gymryd amser er mwyn sicrhau ein bod yn dod i gasgliad teg o fewn y gofynion deddfwriaethol.

I gael rhagor o wybodaeth am gynnal neu newid manylion eich plaid, ewch i [Trosolwg o gynnal manylion plaid](#).

Ein dyletswydd i gynnal y cofrestrau

O dan PPERA, mae gennym ddyletswydd i gynnal cofrestrau pleidiau gwleidyddol. Yn unol â'r ddyletswydd honno, gallwn gynnal adolygiadau o'r cofrestrau er mwyn sicrhau bod plaid a phob un o'i marciau adnabod yn parhau i fodloni'r profion statudol ar gyfer cofrestru.

Gallai hyn olygu os byddwn yn ystyried yn y dyfodol nad yw un neu fwy o farciau adnabod cofrestredig y plaid yn bodloni'r profion statudol mwyach, cânt eu dileu.

Os bydd amgylchiadau plaid yn newid neu os cawn ein hysbysu nad yw'r plaid yn gweithredu yn unol â'i chyfansoddiad neu gynllun ariannol, gallwn adolygu cofrestriad y plaid honno. Bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol.

Os na fydd plaid yn ymladd etholiadau, gallwn hefyd adolygu cofrestriad y blaid.

Fel arfer, byddwn yn cysylltu â'r blaid i roi gwybod am unrhyw adolygiad o'r fath.

Ble y gallaf gael rhagor o gyngor?

Gallwch gael mwy o wybodaeth yn y dogfennau canllaw yr ydym wedi eu hargymell yn y ddogfen, neu gallwch weld ein hystod lawn o ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Gallwch gysylltu â ni drwy ffonio, neu drwy e-bost ar y cyfeiriad isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar 0333 103 1929

Neu e-bostiwch infowales@electoralcommission.org.uk

Ewch i <https://www.electoralcommission.org.uk/cymru>

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: partyreg@electoralcommission.org.uk.